## DEUNYDDIAU ATEGOL

# GWYLIAU

Mae dysgwyr yn ystyried beth yw gŵyl ac yn archwilio'r gwahanol wyliau a gynhelir yng Nghymru. Maent yn ymchwilio i ŵyl dylwyth teg leol ac i stori hanesyddol ffug am dylwyth teg. Mae dysgwyr yn dod i wybod am hanes 'newyddion ffug' ac yn creu stori newyddion ffug am dir yr ysgol neu'r ardal leol. Maent yn darganfod gwybodaeth am y gwahanol wyliau a gynhelir yng Nghymru a beth yw 'Eisteddfod'. Mae dysgwyr yn archwilio ynghylch Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac yn efelychu artist a fu'n ymwneud â'r Eisteddfod, trwy greu clytwaith dosbarth fel cam cyntaf ar gyfer trefnu Eisteddfod ysgol. Maent yn ymchwilio ac yn ystyried sut y gallent drefnu Eisteddfod ac yn defnyddio eu syniadau i ddatblygu a chynnal Eisteddfod ysgol.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd Dysgu a Phrofiad a archwiliwyd:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Sgwariau o gotwm gwyn, e.e. 10cm x 10cm (bydd hen gynfas gotwm yn gwneud y tro) a modd o'i haddurno, e.e. pinnau marcio ffabrig, defnyddiau gwnïo, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YW GŴYL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddeall beth yw gŵyl ac i archwilio'r gwahanol fathau o wyliau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru ac ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Byddant hefyd yn archwilio'r cysyniad o 'newyddion ffug'.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiwn canlynol a theipio eu syniadau yn y blwch.

**Cwestiwn ffocws**

- Beth mae 'gŵyl' yn ei olygu i chi?

### Sgrîn 4

Yma, rhoddir tri diffiniad o 'ŵyl', a gynhyrchwyd gan ddefnyddio AI o nifer o ffynonellau ar-lein. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor wahanol yw'r rhain i'ch syniadau chi?
- Pa mor debyg yw'r rhain i'ch syniadau chi?
- Pa ddigwyddiadau blynyddol ydych chi'n eu dathlu? Pam? A fyddech chi'n ystyried y rhain yn wyliau? Pam?

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio 'meddwl-paru-rhannu' i ystyried pa wyliau y maen nhw'n gwybod amdanyn nhw.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wyliau ydych chi wedi clywed amdanyn nhw? Sut?
- Ble mae'r gwyliau hyn yn cael eu cynnal? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pwy sy'n mynd i'r gwyliau hyn? Pam?

## Sgrîn 6

Ar y sgrîn hon, rhoddir enghreifftiau o wyliau a gynhelir yng Nghymru bob blwyddyn.

Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio i un o'r gwyliau hyn a rhannu eu canfyddiadau mewn cyflwyniad 30 eiliad o hyd.

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr y cynhelir sawl gŵyl yn Nhirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a bod dathliad o'r enw 'Legendary Llangollen Faery Festival' wedi ei gynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Gŵyl i ddathlu beth ydy hon, yn eich meddwl chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth fyddech chi'n disgwyl ei weld yno? Pam?
- Pwy allai fynychu'r ŵyl hon? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa fath o weithgareddau y gall pobl gymryd rhan ynddynt, allai fod yn yr ŵyl? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ar ba adeg o'r flwyddyn y gallai'r ŵyl hon gael ei chynnal? Pam?

Gwahoddwch y dysgwyr i fynd i'r wefan i ddarganfod mwy am yr ŵyl: The Legendary Llangollen Faery Festival (Saesneg yn unig).

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth ystyried y ddelwedd.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei arsylwi?
- Beth allwch chi ei gasglu?
- Beth arall ydych chi eisiau ei wybod?
- Sut byddwch chi'n cael gwybod?

## Sgrîn 9

Er mwyn myfyrio ar y sgrîn flaenorol, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ydych chi'n credu fod y tylwyth teg yn bodoli? Pam? Pa dystiolaeth sydd gennych chi?
- Ydych chi erioed wedi credu mewn tylwyth teg? Pryd? Pam?
- Beth yw stori'r tylwyth teg? Sut ydych chi'n gwybod? Pam maen nhw'n cael eu galw'n hyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr fynd allan i dir yr ysgol a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pe byddech chi'n dod o hyd i dylwyth teg, ble fydden nhw? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth fydden nhw'n ei wneud? Pam?
- Beth fydden nhw'n ei ddweud wrth ei gilydd? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr y gellid ystyried y stori 'The Cottingley Fairies' yn enghraifft o 'newyddion ffug'. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw newyddion ffug? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa straeon newyddion ffug ydych chi'n ymwybodol ohonynt? Sut?
- Pryd ydych chi'n meddwl y dechreuwyd lledaenu newyddion ffug? Pam?

## Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu Fake news: the history and the facts - BBC Bitesize (Saesneg yn unig) ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae newyddion ffug yn lledaenu?
- Pwy sy'n ei ledaenu? Pam?
- Pam fod newyddion ffug yn fwy o broblem nawr nag yn y gorffennol?

## Sgrîn 13

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am greu stori newyddion ffug am dir yr ysgol neu'r ardal leol. Gofynnwch iddynt ysgrifennu eu stori newyddion ffug, gan ei hategu â thystiolaeth, a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth fydd ffocws eich newyddion ffug? Pam?
- Sut y byddwch chi'n sicrhau nad yw eich newyddion ffug yn cynhyrfu pobl? Pam fod hyn yn bwysig?
- Beth fydd ei angen arnoch chi fel tystiolaeth i gefnogi eich newyddion ffug? Sut y byddwch yn cael y dystiolaeth hon?
- Sut y byddwch chi'n defnyddio ysgrifennu sy'n llawn perswâd i rannu'ch stori?

## Sgrîn 14

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ddefnyddio'r triongl myfyrio ar gyfer meddwl sut y gwnaethon nhw greu eu stori newyddion ffug.

TASG 2

# PONTYDD, NID WALIAU

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n dod i wybod am y gwahanol wyliau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru a beth yw 'Eisteddfod', yn y dasg hon. Byddant yn archwilio Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac fel cam cyntaf ar gyfer trefnu Eisteddfod ysgol, bydd y dosbarth cyfan yn gwneud clytwaith.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Cymru'n wlad sy'n adnabyddus am ddathlu ei chelfyddydau a'i diwylliant trwy amrywiaeth o wyliau a bod llawer o wyliau llai mewn trefi ledled Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu Welsh festivals - Festivals in Wales, UK - Visit Wales (Saesneg yn unig) ac Alternative festivals in Wales - Visit Wales (Saesneg yn unig) er mwyn archwilio'r gwahanol wyliau a gynhelir yng Nghymru bob blwyddyn. Yna, gall dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wyliau wnaethoch chi ddod i wybod amdanynt?
- Pa un oedd yn edrych fwyaf diddorol? Pam?
- Pa wyliau oedd yn agos i'ch cartref? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa ŵyl fyddech chi'n dewis ei mynychu, pe gallech chi? Pam?

## Sgrîn 4

Ar y sgrîn hon, eglurir tarddiad y gair 'Eisteddfod'. Gwahoddwch y dysgwyr i ddarganfod mwy am Eisteddfod Ryngwladol Llangollen trwy gyrchu Hafan - Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac Archif - Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac yna drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am Eisteddfod Ryngwladol Llangollen?
- Beth wnaeth eich synnu? Pam?
- Beth yw ethos yr ŵyl?
- Faint o berfformwyr ac ymwelwyr sydd yna fel arfer?

## Sgriniau 5-6

Ar y sgriniau hyn, rhoddir gwybodaeth am ddychweliad Eisteddfod Llangollen yn dilyn pandemig Covid19 a sut y gwnaeth un artist drawsnewid Pont ganoloesol Llangollen, trwy orchuddio dwy ochr y bont â chlytwaith anferth er mwyn adlewyrchu crefftau a diwylliannau Cymru a'r cenhedloedd eraill sy'n cymeryd rhan yn yr Eisteddfod.

## Sgrîn 7

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am drefnu Eisteddfod ysgol i ddathlu'r celfyddydau, yr iaith a'r diwylliant sydd yn eu hysgol a'r gymuned. Fel cam cyntaf, bydd dysgwyr yn gwneud clytwaith o sgwariau gyda gweddill y dosbarth.

Gwahoddwch y dysgwyr i fynd allan i'r awyr agored er mwyn penderfynu ble i arddangos eu clytwaith, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble allech chi arddangos y clytwaith, fel bod pawb yn ei weld?
- Pa le yw'r gorau yn eich barn chi? Pam?
- Beth yw arwynebedd y gofod y mae angen i chi ei orchuddio? Sut ydych chi'n gwybod?
- Os yw pob plentyn yn y dosbarth yn gwneud sgwâr clytwaith, faint fydd ei angen arnoch i orchuddio'r ardal hon? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa faint fydd angen i'r sgwariau fod? Pam?

## Sgrîn 8

Ewch â dysgwyr allan i'r awyr agored i chwilio am le addas i arddangos eu clytwaith ar dir yr ysgol.

## Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, rhoddir y dyfyniad canlynol gan Syr Isaac Newton:

"*Rydym yn adeiladu gormod o waliau a dim digon o bontydd*".

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen y dyfyniad a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl mae Newton yn ei olygu wrth hyn? Pam?
- Ydych chi'n cytuno ag ef? Pam?

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y dyfyniad hwn wedi ysbrydoli gwaith celf Luke Jerram, 'Pontydd, nid waliau' ac anogwch nhw i ddarganfod mwy am ei waith celf trwy gyrchu lukejerram – Bridges, not walls (Saesneg yn unig).

### Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio gwaith Luke Jerram a'u syniadau eu hunain i gynllunio ar gyfer gwneud sgwâr clytwaith, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r ysbrydoliaeth gyffredinol ar gyfer sgwâr y dosbarth cyfan?
- Sut olwg fydd ar eich sgwâr chi? Pam?
- Beth yw'r ysbrydoliaeth ar gyfer eich sgwâr? Pam ei fod yn ystyrlon i chi?
- Sut y byddwch chi'n gwneud eich sgwâr? Pa ddelweddau a/neu eiriau fydd ynddo? Pam?
- Sut byddwch chi'n creu'r delweddau a/neu'r geiriau?

### Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud eu sgwâr clytwaith ac yna greu clytwaith y dosbarth cyfan.

TASG 3

## SUT GALLWN NI DREFNU EISTEDDFOD YSGOL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n archwilio sut y gallen nhw drefnu Eisteddfod a defnyddio eu syniadau i ddatblygu a chynnal Eisteddfod ysgol, yn y dasg hon.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ddilyn y ddolen hon i'w helpu i archwilio sut y gallen nhw drefnu Eisteddfod yn eu hysgol: Ysgol Hen Felin - Key Stage 3 - Eisteddfod 2021 gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut allech chi ddathlu cerddoriaeth a barddoniaeth yn eich Eisteddfod chi? Pam fyddech chi'n ei wneud fel hyn? Sut arall allech chi ei wneud?
- Pa fathau eraill o gelfyddyd allech chi eu dathlu? Pa un fyddai'n un da i'w gynnwys? Pam?
- Sut allech chi gynnwys y gymuned leol yn eich Eisteddfod? Pa grwpiau lleol sydd yn ymwneud â cherddoriaeth neu lenyddiaeth? Sut allech chi eu gwahodd?

## Sgrîn 4

Ar y sgrîn hon, rhoddir syniadau i ddysgwyr a fyddai'n cefnogi datblygiad eu heisteddfod ysgol. Rhoddir enghreifftiau o wahanol fathau o gerddoriaeth a llenyddiaeth, pwy fyddai'n eu perfformio a beth fyddai'n cael eu cynrychioli yn y perfformiadau, yn ogystal â'r ffurfiau eraill ar gelfyddyd y gellid eu cynnwys.

## Sgriniau 5-6

Mae'r sgriniau hyn yn hysbysu dysgwyr y bydd angen iddynt gynllunio cynnwys a strwythur yr Eisteddfod ac efallai y bydd angen iddynt ddod o hyd i arbenigedd ymhlith athrawon, teuluoedd a'r gymuned leol i'w helpu i drefnu a chynnal Eisteddfod yr ysgol.

Eglurwch y bydd angen iddyn nhw gynllunio fel dosbarth, sut y byddan nhw'n...

- Penderfynu pa gerddoriaeth, llenyddiaeth, diwylliant a ffurfiau celf fydd yn cael eu dathlu ar y diwrnod.
- Penderfynu pa blant neu ddosbarthiadau fydd yn gwneud y gwahanol bethau.
- Penderfynu faint o'r gloch i ddechrau y diwrnod a'r digwyddiadau a phryd i ddod â nhw i ben.
- Ymgysylltu â'r gymuned leol.
- Cael cymorth athrawon a theuluoedd.
- Cael trefn ar y perfformwyr ar dir yr ysgol.
- Hysbysebu'r Eisteddfod.
- Ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.
- Gwneud asesiad risg trylwyr.
- Gwahodd pobl i Eisteddfod yr ysgol.
- Darparu lluniaeth.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol ac yna i ddewis dyddiad ac amser ar gyfer cynnal Eisteddfod yr ysgol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pryd fyddai'r amser gorau i gynnal yr Eisteddfod? Pam?
- Sut y gellid defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ddod o hyd i wirfoddolwyr ac ymwelwyr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa un o'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fyddai'r gorau i'w ddefnyddio i hysbysebu'r Eisteddfod? Pam ydych chi'n meddwl hynny? Sut fyddech chi'n strwythuro'r postiad? Pam?
- Sut olwg fyddai ar eich poster ar gyfer hysbysebu Eisteddfod ysgol? Pam?

Gwahoddwch grwpiau o ddysgwyr i gynhyrchu naill ai bostiad ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol neu boster i hysbysebu eu heisteddfod ysgol.

## Sgriniau 8-9

Gwahoddwch y dysgwyr i gynnal eu heisteddfod ysgol ac wedyn i fyfyrio ar y broses drwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth weithiodd yn dda yn eich Eisteddfod ysgol?
- Beth na weithiodd yn dda yn eich Eisteddfod ysgol? Pam?
- Pe byddech yn trefnu ac yn cynnal Eisteddfod ysgol eto, beth fyddech chi'n ei wneud i'w gwneud yn fwy llwyddiannus na'r un gyntaf?